Urdd

# URDD GOBAITH CYMRU
# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2014–15

urdd.cymru






## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Cipolwg ar Eleni | 4–5 |
| Adroddiad y Prif Weithredwr | 6 |
| Adroddiad y Cadeirydd | 7 |
| Astudiaeth Achos 1 – Sioe'r Mimosa | 8–9 |
| Gweithgareddau Cymunedol | 10 |
| Adran Gyfathrebu | 10 |
| Adran yr Eisteddfod a'r Celfyddydau | 11 |
| Adran Chwaraeon | 11 |
| Astudiaeth Achos 2 – Huw Rowlands | 12–13 |
| Gwersyll Llangrannog | 14 |
| Gwersyll Glan-llyn | 14 |
| Gwersyll Caerdydd | 15 |
| Astudiaeth Achos 3 – Cynaliadwyedd yn Llangrannog | 16–17 |
| Adroddiad y Trysorydd | 18 |
| Noddwyr | 19 |
| Ffynonellau Incwm Allanol | 20–21 |
| Gwybodaeth Ariannol | 22–26 |


Urdd

# CIPOLWG AR ELENI









**Dros 24,000 wedi aros yn ein Gwersylloedd**










**Trosiant o £9.7m**








**265 aelod o staff**









urdd.cymru / helo@urdd.org / 01239 652 160





**58% o'r rhai sy'n mynychu clybiau chwaraeon yn ferched**







**91 clwb chwaraeon newydd wedi eu sefydlu**













**88,000 wedi ymweld â'r Eisteddfod**



**Dros 400 clwb cymunedol wythnosol**



**mwy yn urdd.cymru**

## ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR
## EFA GRUFFUDD JONES



**Mae gweithgareddau'r Urdd yn cyfoethogi bywydau plant a phobl ifanc gydol y flwyddyn. Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, eisteddfodol a chwaraeon yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu'n unigolion sicr o'u Cymreictod. Hoffwn ddiolch i bawb – yn aelodau, yn wirfoddolwyr ac yn staff cyflogedig – sydd wedi cyflawni hyn. Rydym yn rhan o fudiad cwbl unigryw y gallwn fod yn falch iawn ohono.**

Rydym wedi llwyddo yn ystod y flwyddyn i gyflawni nifer fawr o'r amcanion a osodwyd gennym yn ein Cynllun Corfforaethol, gan gynnwys:

**—Trefnu gweithgareddau a datblygu prosiectau sy'n cynyddu defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg a chynyddu'r nifer o swyddogion ieuenctid sy'n gallu gwneud hyn**

Mae gennym bellach dîm o swyddogion ieuenctid yn gweithio mewn amryw o ardaloedd. O ganlyniad i'w gwaith, mae nifer o aelwydydd newydd wedi'u sefydlu, gan gynnwys rhai yn Y Barri ac yng Nghaerffili, ac mae ein prosiectau 'Bwrw Mlaen' wedi bod yn gwneud gwaith gwych yn datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol yng Ngogledd Cymru a thrwy'n Gwasanaeth Awyr Agored yn Ne Cymru. Mae Fforwm Ieuenctid wedi'i sefydlu ym mhob rhanbarth, sy'n bwydo i waith y fforwm genedlaethol, Bwrdd Syr IfanC, yn gyson. Cydweithiwyd ar brosiect arbennig iawn gyda chwmni Clwyd Theatr Cymru, a chafodd 16 aelod hŷn o'r Urdd gyfle i weithio gydag actorion proffesiynol a chriw ifanc o Batagonia ar sioe 'Mimosa' – sioe a berfformiwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod ac a fu ar daith am bythefnos ym Mhatagonia gan gael ymateb gwych yno.

**—Cynyddu gweithgareddau chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg**

Bellach mae gan yr Adran Chwaraeon 16 aelod o staff ac am y tro cyntaf y llynedd cyflogwyd pum prentis trwy gynllun ar y cyd gydag ACT Training. O ganlyniad i'w gwaith diwyd, sefydlwyd 91 clwb cymunedol newydd a bellach mae dros 5,000 o blant a phobl ifanc yn mynychu clybiau chwaraeon yr Urdd yn wythnosol.

**—Sicrhau bod mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc gymryd rhan yn yr Eisteddfod ac yn y celfyddydau**

Eleni yng Ngwent, gwelwyd cynnydd yn nifer yr aelodau, gyda 5,721 yn ymaelodi (2,000 yn uwch na 2013/2014). Hoffwn ddiolch i bawb fu'n rhan o'r brwdfrydedd newydd yn yr ardal, ac edrychwn ymlaen at barhau i gynnig ystod o gyfleoedd i'r aelodau newydd yma gyda'r Urdd.

**—Parhau i ddatblygu gwersylloedd yr Urdd fel canolfannau o'r safon uchaf, a buddsoddi yn yr adnoddau**

Dros y flwyddyn ddiwethaf yng Ngwersyll Glan-llyn, cwblhawyd y gwaith adeiladu yng Nghefn Gwyn a Phenllyn, gan gynnwys moderneiddio'r ystafelloedd cysgu a chreu Neuadd Ymgynnull newydd.

**—Gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod y gwaith yn cyfrannu at strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol**

Rydym yn cydweithio'n dda gyda nifer o bartneriaid lleol a chenedlaethol, gan gynnwys darlledwyr a mudiadau gwirfoddol, ac rydym eleni wedi arwyddo memorandwm cydweithio gyda Mentrau Iaith Cymru er mwyn ffurfioli ein perthynas weithio dda gyda hwy.

**Rwy'n arbennig o falch o gyflawniadau'r Urdd dros y flwyddyn ddiwethaf. Hoffwn ddiolch o waelod calon am yr holl gefnogaeth a dymunaf yn dda i bawb yn y dyfodol.**





## ADRODDIAD Y CADEIRYDD
## TUDUR DYLAN JONES



**Mae wedi bod yn fraint cael bod yn Gadeirydd ar yr Urdd eto eleni, mewn blwyddyn lewyrchus a llwyddiannus arall. Mae'r gwersylloedd yn denu nifer fawr o ymwelwyr, mae'r aelodaeth ar gynnydd a nifer o gynlluniau newydd wedi'u sefydlu. Roedd amryw o'r cynlluniau hynny diolch i waith arloesol y fforwm ieuenctid genedlaethol, Bwrdd Syr IfanC.**

Mae'r Bwrdd wedi'i sefydlu ers bron i dair blynedd bellach ac mae'n mynd o nerth i nerth. Eleni am y tro cyntaf cynhaliwyd cynhadledd genedlaethol i bobl ifanc yng Nghaerdydd oedd yn llwyddiannus iawn ac fe fu'r Bwrdd yn rhan o ymgynghoriad cenedlaethol gan y Llywodraeth ar oedran pleidleisio @16. Yn ogystal â hyn, mae aelodau'r Bwrdd yn cyfrannu'n adeiladol ac egnïol at waith Bwrdd y Maes, Bwrdd yr Eisteddfod a'r Bwrdd Busnes. Hefyd fe wnaeth y Bwrdd sbarduno cynllun peilot i benodi llysgenhadon yr Urdd o fewn ysgolion.

Mae'r Ymddiriedolwyr a'r holl wirfoddolwyr yn y gwahanol feysydd yn diolch i Efa a'r staff i gyd am eu holl waith yn llywio'r Mudiad yn gadarn ac am barhau i gynnig cyfleoedd gwerthfawr i gymaint o'n hieuenctid ni. Mae'n rhaid hefyd llongyfarch yr aelodau am eu llwyddiannau mewn amryfal feysydd ac edrychwn ymlaen at flwyddyn arall lle mae mudiad yr Urdd yn parhau i fynd o nerth i nerth.

Ers deuddeng mlynedd bellach, mae'r Adroddiad Blynyddol wedi cael ei gyhoeddi drwy law fedrus a dibynadwy ein Prif Weithredwr ni, sef Efa Gruffudd Jones. Tristwch yw nodi mai dyma fydd ei hadroddiad blynyddol olaf hi. Mae'r hyn y mae Efa wedi'i wneud dros yr Urdd yn ystod ei chyfnod gyda'r Mudiad wedi bod yn ganmoladwy a nodedig. Mae wedi arwain yr Urdd drwy gyfnod cyffrous, ac yn gadael Mudiad sy'n prysur dyfu ac yn cynnig mwy a mwy o brofiadau o bob math i'n hieuenctid ni.

**Mae dyled yr Urdd i Efa yn fawr, a bydd staff, gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr, plant a phobl ifanc yn gweld ei heisiau hi. Mae'r Mudiad yn dymuno'n dda iddi yn ei swydd newydd, ac yn gwybod y bydd yr Urdd wastad â lle cynnes yn ei chalon.**

## OCSIGEN I DDIWYLLIANT CYMREIG PATAGONIA

Yn dilyn canmoliaeth uchel o ddwy ochr i gefnfor yr Iwerydd, roedd sioe gerdd 'Mimosa', oedd yn cynnwys pobl ifanc o Gymru a Phatagonia, yn llwyddiant ysgubol.

**Un o'r rhesymau am lwyddiant y cynllun oedd y cydweithio gwych a fu rhwng yr Urdd a chwmni Clwyd Theatr Cymru – yr Urdd yn cynnig arbenigedd o ran trefnu teithiau tramor a'r cwmni theatr yn feistri ar greu cynyrchiadau o safon.**



Y cast yn perfformio ym Mhatagonia

Gweledigaeth Tim Baker, Cyfarwyddwr Artistig Clwyd Theatr Cymru; Theatr ar gyfer Pobl Ifanc, oedd y cynllun – roedd yn awyddus i greu sioe fyddai'n pontio pobl ifanc o Batagonia a phobl ifanc o Gymru i greu hanes. Roedd 16 o bobl ifanc o Gymru, dau o Batagonia a phedwar actor proffesiynol yn rhan o'r sioe – sioe lwyddodd i dynnu dagrau o'r llygaid gyda'i stori ddirdynnol am fordaith y Mimosa i 'wlad sydd well'.


Cafodd y sioe ei pherfformio yng Nghymru ac ym Mhatagonia lle bu'r criw ar daith am bythefnos. Mae'r Urdd yn gobeithio adeiladu ar y berthynas gyda Clwyd Theatr Cymru drwy sefydlu academi berfformio newydd yng Nghlwyd. Bwriedir llwyfannu sioe'r Mimosa eto ym mis Rhagfyr eleni.



Y Cyfarwyddwr Tim Baker yn ystod un o'r ymarferion







***"Yn ystod fy mywyd hir yn y Dyffryn hwn, dyma'r tro cyntaf i mi wirioneddol fwynhau drama yn yr iaith Gymraeg... roedd naratif doeth y stori ...ynghyd â chyfoeth y gerddoriaeth yn deffro y gynulleidfa o lawer o emosiynau.***

RICARDO LAGIARD

***What this tour did for Chubut was very important, and will remain in the memory of the Welsh community for a long time... it was oxygen for the Welsh Culture here.***

MARCELO ANDRES ROBERTS

***Cafodd y bobl ifanc a'r actorion brofiadau bythgofiadwy a thyfodd cyfeillgarwch rhwng y bois o Batagonia a phobl ifanc Cymru... ac os oes rhaid chwilio am ffordd i ddathlu mordaith ar long syml i wlad bell er mwyn diogelu iaith a diwylliant, pa ffordd well na thrwy ddod â'r gorffennol, presennol a'r dyfodol ynghyd?***

CLARE VAUGHAN, CYDLYNYDD PROSIECT DYSGU CYMRAEG YN Y WLADFA




## DAI BRYER & SIÂN ROGERS
## CYFARWYDDWR GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL

— Dros 375 o gyfleoedd cymdeithasol megis gweithgareddau gwyliau, penwythnos, min nos a theithiau undydd wedi'u cynnal er mwyn cynnig cyfle i blant a phobl ifanc siarad Cymraeg tu allan i'r ysgol.

— Cynhadledd genedlaethol wedi'i chynnal am y tro cyntaf gan Aelodau Fforwm Bwrdd Syr IfanC. Mae'r Bwrdd yn mynd o nerth i nerth ac yn cynnwys cynrychiolaeth o bob fforwm ieuenctid rhanbarthol.

— Mae'r Cynllun Llysgenhadon bellach yn genedlaethol, gyda pherson ifanc wedi'i benodi yn y rhan fwyaf o'n hysgolion uwchradd Cymraeg.

— Dros 400 o adrannau, uwch-adrannau ac aelwydydd yn cael eu cynnal mewn ysgolion ac yn gymunedol, gyda dros 10,000 o aelodau yn mynychu.

— Ein perthynas gydag Awdurdodau Lleol yn mynd o nerth i nerth, a hyn yn caniatáu i ni gyflogi Swyddogion Ieuenctid ar y cyd sy'n darparu gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod ac ar ôl oriau ysgol.

**01267 676 642**
**daibryer@urdd.org**

**01678 541 030**
**sianrogers@urdd.org**



## MALI THOMAS
## CYFARWYDDWR ADRAN GYFATHREBU

— Gwefan newydd wedi'i lansio fis Tachwedd 2014, ar barth .cymru – yr Urdd oedd un o'r mudiadau gwirfoddol cyntaf i symud i'r parth newydd hwn.

— Ers ei lansio, mae 172,486 wedi ymweld â'r wefan.

— Maes yr Eisteddfod wedi'i ail-frandio diolch i nawdd gan gynllun y Llywodraeth, #pethaubychain

— Dros 12,000 bellach yn dilyn yr Urdd ar Twitter.

— Cartŵn Mistar Urdd a'i ffrind Pen Gwyn wedi'i ailgyflwyno yn Cip a chynnydd yng nghylchrediad y cylchgronau.

— Cynnydd yn yr aelodaeth, gyda 55,378 wedi ymaelodi yn 2014/ 2015.

**029 2063 5695**
**mali@urdd.org**



URDD GOBAITH CYMRU
ADRODDIAD BLYNYDDOL 2014–15




## ALED SIÔN
## CYFARWYDDWR ADRAN YR EISTEDDFOD A'R CELFYDDYDAU

— Gyda chymorth criw enfawr o wirfoddolwyr a chefnogaeth frwdfrydig yr ardal fe gynhaliwyd Eisteddfod lwyddiannus yn ysblander tir Llancaiach Fawr yng Nghaerffili a'r Cylch.

— Daeth dros 88,000 o ymwelwyr i'r Eisteddfod a chofrestrwyd dros 48,000 o gystadleuwyr mewn 200 o gystadlaethau llwyfan.

— Cyflwynwyd cyfres o gystadlaethau newydd a gwahanol gyda chydweithrediad amryw o bartneriaid allweddol, gan gynnwys cystadlaethau yn y maes galwedigaethol, newyddiaduraeth, menter a busnes, cyfieithu a choginio.

— Mae Cwmni Theatr yr Urdd wedi bod yn cynnal gweithdai ac ymarferion trwy gydol y flwyddyn wrth baratoi ar gyfer cynhyrchiad y sioe gerdd Les Misérables yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ym mis Hydref 2015.

**01678 541 014**
**eisteddfod@urdd.org**



## GARY LEWIS
## CYFARWYDDWR ADRAN CHWARAEON

— Dros 5,000 yn cymryd rhan mewn clybiau chwaraeon wythnosol.

— Mae 58% o'r rheiny sy'n mynychu ein clybiau yn ferched.

— Dros 42,000 wedi cymryd rhan yng nghystadlaethau chwaraeon yr Urdd.

— 91 clwb newydd wedi'u datblygu yn ystod y flwyddyn.

— 658 o hyfforddwyr yn cynnal clybiau i'r Urdd.

— Dros 1,000 wedi mynychu gweithgareddau teulu megis rownderi min nos, nofio rhiant a phlentyn a rygbi i'r teulu.

**029 2063 5686**
**gary@urdd.org**



*“Roedd gwaith Huw a’r Pwyllgor Ieuenctid yn ysbrydoliaeth i ni gyd ac fe wnaeth y pwyllgor arwain y ffordd gyda’u brwdfrydedd a’u gwaith caled. Hoffwn ddiolch i Huw am ei gyfraniad anhygoel i waith yr Urdd yn Rhanbarth Gwent a’i rôl wrth sicrhau llwyddiant Eisteddfod Caerffili 2015. Mawr yw ein dyled iddo.”*

**HELEN GREENWOOD, SWYDDOG DATBLYGU GWENT**





## CER AMDANI!

### ‘Cer amdani’ fyddai cyngor Huw Rowlands, sy’n 18 oed ac yn dod o Ystrad Mynach, i unrhyw berson ifanc sy’n ystyried gwirfoddoli gyda’r Urdd.

Daeth Huw i gyswllt yn gyntaf gyda’r Urdd pan gyfarfu â chriw Llwybrau’r Brig yn Ysgol Cwm Rhymni pan oedd ym Mlwyddyn 7. Chwaraeon oedd ei bethau, a gyda chymorth y criw a’r swyddog chwaraeon lleol gwnaeth gymhwyster Gwobr Arweinydd Chwaraeon Cymunedol a bu’n gwirfoddoli’n gyson mewn clybiau chwaraeon ar draws y sir. Bu’n gwirfoddoli mewn cystadlaethau rhanbarthol ac yn dyfarnu cystadlaethau pêl-droed a rygbi cynradd.

Yna yn 2013, gydag Eisteddfod yr Urdd Caerffili a’r Cylch ar y gorwel, roedd hi’n amser sefydlu Pwyllgor Ieuenctid yn yr ardal. Yn dilyn etholiad yn yr ysgol, cafodd Huw ei benodi yn drysorydd y pwyllgor – dyma oedd y pwyllgor cyntaf i gyrraedd eu targed o £5,000 gan lwyddo i godi cyfanswm o £6,000 trwy amryw weithgareddau gan gynnwys pacio bagiau mewn archfarchnadoedd. Ond beth oedd eu cyfrinach tybed? Yn ôl Huw,




Huw yn gweithio ar y cynllun croeso yn yr Eisteddfod

*“Dwi’n meddwl bod pawb yn fodlon rhoi arian gan ein bod yn ifanc, yn gwenu lot ac yn gwrtais! Ond mi oedd yn brofiad anhygoel bod yn aelod o’r pwyllgor ac roedd y gefnogaeth gawsom ni gan yr Urdd a’r Pwyllgor Gwaith yn rhagorol.”*

A phan ddaeth hi’n wythnos yr Eisteddfod yn Llancaiach Fawr, er gwaetha’r ffaith ei fod yng nghanol ei arholiadau Lefel A, bu Huw yn hynod brysur ar y Maes – yn rhan o’r cynllun croeso, yng nghefn llwyfan, yn y gegin ac yn stiwardio. Yn ei eiriau ef, *“Oedd hi yn manic llwyr wythnos Steddfod – nes i ddim stopio! O’n i hefyd yng nghanol fy arholiadau Lefel A, ac o edrych yn ôl, dwi wir ddim yn gwybod sut wnes i e! Ond fy nghyngor i i unrhyw un sy’n ystyried gwirfoddoli gyda’r Urdd yw i fynd amdani ac i wneud cymaint ag sy’n bosibl gan fanteisio ar gyngor anhygoel a chefnogaeth staff yr Urdd.”*

Mae Huw bellach wedi cael swydd gyda’r BBC yng Nghaerdydd, ond mae am barhau i wirfoddoli gyda’r Urdd yn lleol. Yn ddiweddar cafodd ei wahodd i fynychu Bwrdd y Maes a Chyngor yr Urdd.



Huw gyda staff a gwirfoddolwyr o ardal Caerffili



## LOWRI JONES
## CYFARWYDDWR
## GWERSYLL YR URDD LLANGRANNOG

- Dros 240 o gyrsiau amrywiol wedi eu trefnu a dros 20,000 o wersyllwyr.
- Dros 150 o blant lleol yn cymryd rhan yn wythnosol mewn clybiau merlota, nofio, sgïo, eira-fyrddio, pêl-droed, dringo, dawnsio a rygbi - oll trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Croeswyd mwy o deuluoedd nag erioed yn ystod 14/15.
- Partneriaeth gyda Chlwb Pêl-droed Abertawe a Chlwb Rygbi y Scarlets yn parhau, gyda chyrsiau wedi eu cynnal ar y cyd.
- Steffan Jenkins, y cyn-Gyfarwyddwr, wedi ymddeol wedi 40 mlynedd o wasanaeth i'r Urdd.

**01239 652 140**
**llangrannog@urdd.org**



## HUW ANTUR EDWARDS
## CYFARWYDDWR
## GWERSYLL YR URDD GLAN-LLYN

- Mae 271 o gyrsiau wedi'u trefnu yn ystod y flwyddyn, gyda 13,000 person ifanc wedi aros yn y Gwersyll.
- Bloc cysgu Cefn Gwyn wedi'i adnewyddu, sy'n cynnwys y Neuadd Ymgynnull, Lolfa Cefn Gwyn a swyddfa ar gyfer hyd at chwech aelod o staff yr Urdd.
- Cyntedd wedi'i adeiladu o amgylch bloc llety Penllyn wnaeth wella'r trefniadau diogelwch a gwella ansawdd cyffredinol y bloc llety.
- Lolfeydd ac ystafelloedd cyfarfod newydd wedi'u creu sy'n golygu y gall mwy o gyrsiau ddefnyddio Glan-llyn ar yr un pryd.
- Mae Gwasanaeth Awyr Agored Glan-llyn wedi'i ymestyn i Dde Cymru fel y gall pobl ifanc fanteisio ar weithgareddau awyr agored cyfrwng Cymraeg yn eu hardal eu hunain.

**01678 541 000**
**glan-llyn@urdd.org**







## TIMOTHY EDWARDS
## CYFARWYDDWR
## GWERSYLL YR URDD CAERDYDD

- Dros 11,000 wedi aros yn y Gwersyll a thros 15,000 wedi gwneud defnydd o'r Ganolfan.
- Rhaglen gyffrous o weithgareddau wedi'u cynnal dros y flwyddyn i ddathlu degfed pen-blwydd y Gwersyll, gyda'r cynhyrchiad o Les Misérables: Fersiwn Ysgolion yn un o'r uchafbwyntiau.
- Roedd ein cwrs haf Lens eleni, oedd mewn partneriaeth â BT, dan arweiniad enillydd BAFTA Cymru, Osian Williams. Yn ystod y cwrs cynhyrchwyd ffilm oedd yn canolbwyntio ar ddiogelwch ar y we i blant a phobl ifanc, sy'n cyd-fynd ag ymgyrch genedlaethol BT.
- Cyfalaf sylweddol wedi'i fuddsoddi er mwyn sicrhau cyfleusterau preswyl a chyfarfod modern.

**029 2063 5678**
**caerdydd@urdd.org**



> **“”** ***Dwi’n mwynhau dysgu’r cwrs a dwi’n synnu weithiau cyn lleied o gyfleoedd mae plant heddiw yn ei gael i fynd allan a mwynhau byd natur.***
>
> **OSIAN JONES, SWYDDOG CYNALADWYEDD GWERSYLL YR URDD LLANGRANNOG**





## DYN GWYRDD Y GWERSYLL

**Cafodd Osian Jones, Swyddog Cynaliadwyedd Gwersyll Llangrannog, ei fagu ym Mlaenau Ffestiniog. Pysgota oedd ei bethau yn blentyn, ac mae’n cyfaddef ei fod wastad wedi bod fwy cyfforddus yng nghanol byd natur nac mewn swyddfa gynnes. Ei weledigaeth yw cael plant a phobl ifanc o bob cefndir i fwynhau a dysgu am fyd natur, gan ddysgu trwy wneud yn hytrach na thu ôl i ddesg.**

Ers cychwyn yn Llangrannog dros ddwy flynedd yn ôl, mae amryw o gynlluniau wedi’u sefydlu ganddo. Un o’r rhai cyntaf oedd codi dau bolitwnel fyddai’n cyflenwi llysiau a ffrwythau organig i gegin y gwersyll. Ond mae wedi gorfod taclo ambell i broblem: *“Mi ges i ’chydig o broblem y llynedd efo cwningod yn tyllu eu ffordd i mewn – gan gnoi pob dim oedd yna. Dwi hefyd yn cofio cael andros o grop da o foron, ond mi fu’n rhaid i mi eu codi i gyd gan fod ’na lygoden y gwair wedi cael blas arnyn nhw. Mae’n dipyn o her rheoli pryfetach ac anifeiliaid bach heb ddefnyddio plaladdwyr, ond dwi’n mwynhau’r her – gweithio gyda byd natur ydy beth ydym ni’n ceisio ei wneud yma.”*

Adeiladu tŷ crwn oedd yr her nesaf ar ei restr, a llwyddodd i gael criw o Goleg Aberteifi, Ysgol Dyffryn Teifi, Cyngor Ceredigion, gwirfoddolwyr lleol, pobl o’r pentref a staff i helpu i greu y tŷ crwn unigryw dan arweiniad Tony Wrench o Sir Benfro. *“Mi gawsom ni griw gwych at ei gilydd, a gyda lot o waith caled, llwyddom i godi’r tŷ mewn wythnos a hanner. Ond fyddwn i ddim wedi gallu ei wneud heb Tony – mae’n grefft yn ei hun balansio popeth i greu y tai hynafol yma.”*



↑ Osian yn y politwnel yn hel tomatos i’r gegin



Ac ar ôl creu y tŷ, roedd angen meddwl am weithgaredd i’w chynnal ynddo, ac ar ôl cael ysbrydoliaeth yng Ngwersyll Glan-llyn, cychwynnodd sesiynau Gwylltgrefft yn y gwersyll – gweithgaredd sy’n addysgu am fyd natur a sgiliau goroesi yn y gwyllt. Yn ôl Osian, *“Dwi’n mwynhau dysgu’r cwrs a dwi’n synnu weithiau cyn lleied o gyfleoedd mae plant heddiw yn ei gael i fynd allan a mwynhau byd natur. Dwi wedi cael ambell griw sydd erioed wedi cerdded mewn gwair uchel neu gael eu pigo gan ddanadl poethion - pethau bach fel ’na. Mae’r plant i weld yn gwerthfawrogi’r cyfle i wneud pethau mor syml â dal ychydig o bryfed mewn rhwyd.”*

Syniad diweddaraf Osian yw gweithgaredd nos newydd i adnabod ystlumod. Mae’r plant yn mynd allan gyda theclyn ‘hetrodyne’, sydd, trwy alwad yr ystlum, yn gallu dadansoddi pa fath o ystlumod sydd yn yr ardal. Mae hefyd wedi dechrau gosod trapiau i ddal mamaliaid bach er mwyn monitro beth sydd yn yr ardal. *“Llygod y gwair ydym ni wedi’u dal hyd yn hyn – ond mae’n grêt rhoi cyfle i blant weld yr anifeiliaid bach hyn yn agos a dysgu sut i’w trin gyda gofal a’u gollwng yn ôl i’r gwyllt. Mi fydd hefyd yn ddiddorol i ni gadw’r data i ddadansoddi beth sy’n byw yn yr ardal.”*

**Gydag amryw o weithgareddau eraill ar y gweill, megis dadansoddi peli tylluanod, arolygu cloddiau a phlannu coed collddail o amgylch y Gwersyll, mae digon i wneud yn Llangrannog gan Ddyn Gwyrdd y Gwersyll.**

## ADRODDIAD Y TRYSORYDD
## RHEON TOMOS

### Rwyf yn falch o adrodd fod canlyniadau ariannol 2014/15 yn hynod o bositif ac yn dangos gweddill iach am y cyfnod.



Fel y gwelwch o'r adroddiad hwn fe fu bwrlwm o weithgaredd eto eleni gyda gwariant o dros £9.1m. Mae ystod gweithgareddau'r Urdd bellach yn sylweddol iawn gyda rhywbeth yn digwydd ym mhob rhan o Gymru yn rheolaidd. Fe gytunwyd y dylid buddsoddi mwy o adnoddau i gefnogi gwaith y Maes eleni ac mae hyn wedi ysgogi cynnydd yn y gweithgareddau'n lleol. Cafwyd cynnydd hefyd yn ein gweithgareddau chwaraeon, sydd bellach yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd i'n haelodau yn ogystal â llwyfannu Gemau Cymru. Roedd Eisteddfod yr Urdd Meirionydd yn llwyddiant gyda'r Pwyllgor Lleol a'r gwirfoddolwyr yn rhagori o ran eu cyfraniad at lwyddiant yr ŵyl. Yn anffodus fe gafwyd sawl her wrth ariannu'r Eisteddfod oherwydd cynnydd annisgwyl yn ein costau a gostyngiad mewn incwm arall. Gyda chyfraniad gan y Mudiad fe ddelwyd â'r anawsterau hyn.

Fe fu'n flwyddyn arall o fuddsoddi'n helaeth (dros £0.6m) o ran gwariant cyfalaf. Gwelwyd gwariant ar wella diogelwch a chyfleusterau Gwersyll Glan-llyn, gan gynnwys gwaith uwchraddio llety sylweddol. Cafwyd yn ogystal wariant ar wella adnoddau Llangrannog a Chaerdydd. Mae gwariant o'r fath yn rhan o gynllun strategol i ddarparu adnoddau o safon i'n defnyddwyr. Eisoes mae sawl un wedi canmol y gwelliannau a hyderwn fod hyn efallai yn un o'r rhesymau am y defnydd uwch nag erioed o'r gwersylloedd yn ystod 2014/15.

Da yw gallu adrodd fod gwerth ein buddsoddiadau wedi cynyddu tua £0.12m yn ystod y flwyddyn a bod dros £76k wedi'i dderbyn fel incwm o'r buddsoddiadau yma. Ein bwriad fel Mudiad yw ceisio cadw arian wrth gefn i gefnogi gweithgareddau yn y dyfodol pe byddai argyfwng o ryw fath. Er nad ydym wedi cyrraedd ein targed hyd yma mae cynnydd eleni yn gadarnhaol ac oherwydd bod rheolaeth ariannol y Mudiad yn effeithiol hyderwn y gallwn gynyddu ein cronfeydd yn y dyfodol.

Fel Trysorydd yr Urdd hoffwn ddiolch am gefnogaeth barod fy nghyd-ymddiriedolwyr ac ymroddiad aelodau'r Bwrdd Busnes. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Swyddogion y Mudiad am eu hymrwymiad a'u proffesiynoldeb wrth gefnogi a darparu cymaint o weithgaredd, ac am eu llwyddiant yn denu grantiau sylweddol o sawl ffynhonnell. Diolch hefyd i'r holl gyrff cyhoeddus sy'n ein cefnogi yn ariannol ac mewn amrywiol ffyrdd eraill. Yn ogystal hoffwn dynnu sylw a diolch am roddion hael gan gefnogwyr y Mudiad, sydd, gobeithio, yn adlewyrchu hyder yn yr hyn mae'r Urdd yn ceisio ei gyflawni dros blant a phobl ifanc Cymru.





## NODDWYR

Rydym yn chwilio yn barhaus am noddwyr newydd sy'n gallu ein cefnogi drwy gymorth ymarferol neu ariannol. Mae'r buddiannau y gall yr Urdd eu cynnig yn cynnwys sylw yn ein digwyddiadau a brandio ar ddeunyddiau amrywiol.

**Diolchwn i'r sefydliadau canlynol a gefnogodd waith yr Urdd yn ystod y flwyddyn:**

- BBC Radio Cymru
- Bwydydd Castell Howell
- BT
- Cadw
- Celtic Energy
- Chwaraeon Cymru
- Cyngor Bwrdeisdref Sirol Caerffili
- Cyngor Tref Caerffili
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Dawnus
- Doodson
- Dŵr Cymru
- Gravells
- HSBC
- Integro Doodson
- John Lewis
- Jones & Whitehead
- Llywodraeth Cymru
- Miller Argent
- Penn Pharma
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Prifysgol De Cymru
- Principality
- S4C
- Shadow Holdings
- UCAC
- Uprise
- Undeb Rygbi Cymru
- Village Bakery
- Wales & West Utilities
- Western Mail
- Western Power Distribution
- Ymddiriedolaeth Ernest Cook
- Ymddiriedolaeth Ivor ac Aeres Evans
- Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen
- Ymddiriedolaeth Jane Hodge
- 3 P Learning



**MAI PARRY ROBERTS**
**CYFARWYDDWR BUSNES A PHERSONÉL YR URDD**

## FFYNONELLAU INCWM ALLANOL

Rydym yn ymdrechu i sicrhau cefnogaeth ariannol i waith yr Urdd o bob math o ffynonellau.  Heb y gefnogaeth hon ni fyddai modd i ni gynnig yr amrediad o brofiadau sy'n cael eu disgrifio yn yr adroddiad hwn.

| | £ |
|---|---|
| **Cynigwyd y prif grantiau canlynol** | |
| Llywodraeth Cymru – Hyrwyddo'r Gymraeg | **702,181** |
| Llywodraeth Cymru – Cynllun Grantiau Mudiadau Ieuenctid | **102,974** |
| Llywodraeth Cymru – Prosiect Ail Iaith | **59,191** |
| Llywodraeth Cymru – prosiectau yn cynnwys Bwrw Mlaen | **73,896** |
| Chwaraeon Cymru – cynnal gweithgareddau chwaraeon | **250,000** |
| Llywodraeth Cymru – cefnogi Gemau Cymru | **85,000** |
| Sportlot (Chwaraeon Cymru) | **25,000** |
| Menter Caerdydd | **10,000** |
| Bwrdd Tenis Cymru | **6,000** |
| Cyngor Llyfrau – cefnogi cylchgronau | **26,000** |
| Coleg Cymraeg Cenedlaethol | **8,936** |
| **Prif Grantiau Adeiladau ac Offer** | |
| Cyfenter Mon – adnewyddu Y Plas, Glanllyn | **75,000** |
| Cyngor Gwynedd – at Lwybr Tegid/Arwyddion safle | **37,188** |
| Cyngor Ceredigion – prosiect cynaladwyaeth | **11,816** |
| Cyngor Ceredigion (RDP) | **9,925** |
| **Grantiau i'r Eisteddfod a'r Celfyddydau** | |
| Llywodraeth Cymru | **150,000** |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | **141,984** |
| Cyngor Celfyddydau – Theatr Ieuenctid yr Urdd | **30,000** |

**01678 541 010**
**mai@urdd.org**





| | £ |
|---|---|
| **Awdurdodau Lleol – gan gynnwys grantiau cefnogi swyddogion ieuenctid** | |
| Ceredigion | **39,202** |
| Powys | **14,078** |
| Môn (gan gynnwys Ymddiriedolaeth Môn) | **25,715** |
| Gwynedd | **34,210** |
| Conwy | **17,050** |
| Penfro | **15,984** |
| Dinbych | **19,350** |
| Caerfyrddin | **10,000** |
| Wrecsam | **10,000** |
| Fflint | **36,000** |
| Blaenau Gwent | **10,000** |
| Caerdydd | **14,000** |
| Caerffili | **12,000** |
| Bro Morgannwg | **18,966** |
| | |
| CGGC – grant gwirfoddoli ieuenctid | **9,089** |
| Menter Iaith Caerffili | **7,880** |
| Trywydd – PCAI | **12,000** |
| Ysgol Dyffryn Conwy – swyddog ieuenctid | **14,793** |
| **Prif Gymynrhoddion** | |
| Ceinwen Bowyer, Hen Golwyn (balans) | **57,985** |
| Justina Davey, Caerffili | **76,892** |
| Irene Kent, Llanymddyfri | **13,955** |
| Gwyneth Evans, Gresford | **10,000** |
| Gwennant Gillespie, Waun Fawr | **2,000** |

## GWYBODAETH ARIANNOL

**Datganiad yr Archwilwyr i Ymddiriedolwyr Urdd Gobaith Cymru**
Yr ydym wedi arholi'r crynodeb ariannol ar y dudalen yma.

**Cyfrifoldebau priodol ymddiriedolwyr ac archwilwyr**
Yr ydych chi fel ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r crynodeb ariannol. Yr ydym wedi cytuno i adrodd i chi ein barn ar gysondeb y crynodeb ariannol gyda'r cyfrifon statudol llawn, a arwyddwyd ar yr 22ail o Hydref 2015.

**Sail ein barn**
Yr ydym wedi gwneud y gwaith hynny yr ydym yn ei ystyried yn addas i sefydlu a ydy'r crynodeb ariannol yn gyson gyda'r datganiadau ariannol pan baratowyd rhain oddi wrthynt.

**Ein barn**
Yn ein barn mae'r crynodeb ariannol yn gyson gyda'r datganiadau ariannol llawn am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2015.

**PJE, Archwilwyr Cofrestredig**
Llanbedr Pont Steffan

**Adroddiad yr Ymddiriedolwyr**
Mae'r cyfrifon uchod yn grynodeb o wybodaeth a dynnwyd oddi wrth y datganiadau ariannol llawn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol llawn gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 8fed o Hydref 2015 ac maent wedi'u hanfon i'r Tŷ Cwmnïau ac i'r Comisiwn Elusennau. Archwiliwyd y cyfrifon gan PJE a rhoddwyd adroddiad diamod arnynt.

Mae'n bosib nad yw'r crynodeb ariannol yn rhoi gwybodaeth ddigonol i roi dealltwriaeth lawn ar faterion ariannol yr elusen. Felly, am wybodaeth bellach, dylid ymgynghori â'r cyfrifon statudol llawn; Adroddiad yr Archwilwyr ar y cyfrifon hynny, ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr. Ceir copïau o'r rhain oddi wrth y cwmni.

Llofnodwyd ar ran Bwrdd y Cyfarwyddwyr






## GWYBODAETH ARIANNOL
## CWMNI URDD GOBAITH CYMRU CYFYNGEDIG
## MANTOLEN 31 MAWRTH 2015

| | 2015 | 2014 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| **Asedion Sefydlog** | | |
| Eiddo Sylweddol | 11,039,395 | 10,493,617 |
| Eiddo a ddelir i'w gwerthu | - | 75,000 |
| Buddsoddion | 2,764,891 | 2,590,958 |
| | **13,804,286** | **13,159,575** |
| **Asedion Cyfredol** | | |
| Stoc | 48,476 | 34,573 |
| Dyledwyr | 529,100 | 564,401 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 1,654,602 | 1,739,052 |
| | **2,232,178** | **2,338,026** |
| **Credydwyr** | | |
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | (1,118,543) | (1,430,102) |
| Rhwymedigaethau cyfredol net | 1,113,635 | 907,924 |
| Asedion llai rhwymedigaethau cyfredol | 14,917,921 | 14,067,499 |
| Symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn | (399,006) | (493,690) |
| | **14,518,915** | **13,573,809** |
| **Cronfeydd** | | |
| Cronfeydd cyfyng | 3,058,945 | 3,263,697 |
| Cyfrif incwm a thraul | 9,815,795 | 8,865,524 |
| Cronfa ail-brisio buddsoddion | 1,389,380 | 1,220,512 |
| Cronfeydd gwaddol | 254,795 | 224,076 |
| **Cronfeydd** | **14,518,915** | **13,573,809** |

## GWYBODAETH ARIANNOL
## INCWM 2014/2015





| | | £ |
|---|---|---|
| 1 | Llangrannog a Phentre Ifan | 2,715,407 |
| 2 | Glanllyn | 1,468,667 |
| 3 | Caerdydd | 730,023 |
| 4 | Incwm o fuddsoddion | 76,078 |
| 5 | Eisteddfod 2014 (gan gynnwys grantiau) | 1,779,513 |
| 6 | Cylchgronau | 66,664 |
| 7 | Aelodaeth | 360,638 |
| 8 | Rhoddion a chymynroddion | 292,591 |
| 9 | Amrywiol | 214,923 |
| 10 | Grantiau (yn cynnwys chwaraeon) | 1,720,087 |
| 11 | Grantiau tuag at gwariant cyfalaf | 142,193 |
| 12 | Incwm Chwaraeon | 147,767 |
| | **Cyfanswm Incwm am 2014/2015** | **9,714,551** |





## GWYBODAETH ARIANNOL
## GWARIANT 2014/2015




| | | £ |
|---|---|---|
| 1 | Llangrannog a Phentre Ifan | 2,317,035 |
| 2 | Glanllyn | 1,478,456 |
| 3 | Caerdydd | 618,296 |
| 4 | Costau elusennol | 1,509,905 |
| 5 | Eisteddfod | 2,097,078 |
| 6 | Cylchgronau | 121,395 |
| 7 | Costau trefn lywodraethol | 94,176 |
| 8 | Costau codi arian a chyhoeddusrwydd | 37,152 |
| 9 | Dibrisiant | 61,184 |
| 10 | Chwaraeon | 800,808 |
| | **Cyfanswm Gwariant am 2014/2015** | **9,135,485** |

Dosrannwyd costau cefnogi dros y gweithgareddau elusennol ar sail y ganran incwm a dderbyniwyd.

## GWYBODAETH ARIANNOL
## CANLYNIAD Y FLWYDDYN
## CWMNI URDD GOBAITH CYMRU

| | 2015 | 2014 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| Mewn lif net o adnoddau am y flwyddyn | 579,066 | 868,855 |
| Gweddill ar werthu asedau ac buddsoddion | 244,450 | 79,014 |
| | **823,516** | **947,869** |
| Cynnydd/(Lleihad) ar ail-brisio buddsoddion – heb eu realeiddio | 121,590 | 160,305 |
| **Cynnydd/(Lleihad) net mewn cronfeydd** | **945,106** | **1,108,174** |
| Cronfeydd ar 1 Ebrill 2014 | 13,573,809 | 12,465,635 |
| **Cronfeydd ar 31 Mawrth 2015** | **14,518,915** | **13,573,809** |

Mae'r cyfanswm incwm yn cynnwys £8,154,401 o gronfeydd rhydd, £1,550,675 o gronfeydd clwm a £9,475 o gronfeydd gwaddol. Mae'r cynnydd net am y flwyddyn ar ôl trosglwyddiadau rhwng cronfeydd yn cynnwys gweddill o £1,119,139 ar gronfeydd rhydd a diffyg o £174,033 ar gronfeydd cyfyng a gwaddol.



Urdd


# urdd.cymru
# helo@urdd.org
# 01239 652 160